



## Themau - *Themes*

Dweud beth fyddwch chi'n wneud a gofyn ffafr.  
*Saying what you will be doing and asking a favour.*

## Patrymau Iaith - *Language patterns*

### Bod - *to be*

Byddwn ni'n mynd i Ffrainc. *We'll be going to France.*

|                      |  |
|----------------------|--|
| Bydda i              | <i>I will be</i>                       |
| Byddi di             | <i>You will be</i>                     |
| Bydd e/ hi / y plant | <i>He / she / the children will be</i> |
| Byddwn ni            | <i>We will be</i>                      |
| Byddwch chi          | <i>You will be</i>                     |
| Byddan nhw           | <i>They will be</i>                    |

Bydda i'n gwneud 'pavlova' - *I will be making 'pavlova'.*

Dyn ni'n defnyddio dyfodol 'gwneud' i ofyn ffafr.  
*We use the future of 'gwneud - to do' to ask a favour.*

Wnewch chi wisgo'r plant? *Will you dress the children?*  
Wnei di helpu gyda'r plant? *Will you help with the children?*

NODYN: Mae angen 'yn' gyda 'bod' ond dim gyda 'gwneud'  
*NOTE: 'Yn' is needed with 'bod' but not with 'gwneud'*

## Esiamplau ychwanegol - *Extra examples*

### Bod - *to be*

#### Negyddol - *negative*

Fydda i ddim yn clirio'r llestri *I won't be clearing the dishes*  
Fyddwn ni ddim yn hir yn clirio'r llestri *We won't be long clearing the dishes*

#### Gofyn cwestiwn - *asking a question* -

Fydd hi'n gwneud pavlova? *Will she be making a pavlova?*  
Fyddwch chi'n mynd i Ffrainc? *Will you be going to France?*

Mae treigladau meddal i'r negyddol a'r cwestiwn.  
*There is a soft mutation with the negative and question form.*

Ateb cwestiwn - *answering questions.*

Fyddi di .....? Bydda / Na fydda  
Fydd hi.....? Bydd / Na fydd  
Fyddwch chi..? Byddwn / Na fyddwn: Bydda / Na fydda  
Fyddan nhw....? Byddan / Na fyddan

Fyddwch chi'n mynd i Ffrainc? Byddwn.  
*Will you be going to France? Yes, (we will be)*

Wnewch chi ofyn i Mrs Jones helpu? Gwnaf / Na wnafl.  
*Will you ask Mrs Jones to help? Yes I will / No I won't.*

**Nodwch y gwahaniaeth - Notice the difference**

Fyddwch chi'n gweithio heno? *Will you be working tonight?*  
Wnewch chi weithio heno plis? *Will you work tonight please?*

## Tasgau - Tasks

### **Tasg sain 1 / Audio task 1**

Atebwch y cwestiynau hyn.  
*Answer these questions*

Pwy fydd yn gwneud *pavlova* i'r bore coffi?  
Beth fydd Gwenda yn wneud?  
I ba wlad bydd y ddau gwpl yn mynd ar wyliau?  
Pryd bydd Enid a Geraint yn mynd ar wyliau?  
Pwy fydd yn mynd i'r farchnad?  
Pwy fydd yn coginio swper (efallai)?

### **Tasg sain 2 / Audio task 2**

Newidiwch y ffaith sy DDIM yn gywir yn y brawddegau hyn.  
*Change the fact that is NOT correct in these sentences.*

Byddwn ni'n addurno'r neuadd brynhawn Dydd Iau.  
Bydd plant Blwyddyn 5 yn gallu helpu.  
Bydd y sioe yn dechrau am 5 o'r gloch.  
Bydd Mrs Jenkins yn casglu dillad.  
Bydd Mrs Jones yn helpu gwisgo'r athrawon.  
Bydd Mr Davies yn helpu gyda'r bwyd.  
Bydd Blwyddyn Pedwar yn canu carolau.  
Bydd staff y gegin yn gwneud cawl.

## Sgript Sain 1 - Audio Script 1

- Gwenda:** Swper bendigedig Enid! A *pavlova* anhygoel!
- Enid:** Diolch yn fawr. Bydda i'n gwneud *pavlova* i'r bore coffi.
- Gwenda:** Syniad da. Bydd e'n gwerthu'n syth!
- Enid:** Be' wyt ti'n mynd i wneud?
- Gwenda:** Bydda i'n gwneud cacen siocled... eto! Dw i'n gwneud cacen siocled bob tro.
- Enid:** Mae dy gacen siocled di'n enwog. Bydd pawb eisiau prynu'r gacen.
- Enid:** Eistedda lawr - bydda i'n gwneud paned o goffi i bawb yn y funud ...
- Gwenda:** Fyddwch chi'n mynd i Ffrainc yr haf yma, Enid?
- Enid:** O! Byddwn- ni a'r garafan! Bydd pythefnos yn Ffrainc yn hyfryd!
- Gwenda:** Ble byddwch chi'n aros?
- Enid:** Byddwn ni'n mynd i Baris - fel arfer.
- Gwenda:** Pryd byddwch chi yno?
- Enid:** Byddwn ni'n mynd ar ddechrau mis Awst, yn syth ar ôl yr Eisteddfod.
- Gwenda:** Byddwn ni yn yr un ardal ar yr un pryd!
- Enid:** Wel, grêt! Beth am drefnu cwrdd?
- Gwenda:** Syniad da. Bydd John a Geraint yn hapus!
- Enid:** Mae marchnad dda iawn yn y pentref - byddwn ni'n gallu mynd i siopa a byddan nhw'n gallu coginio swper i ni!
- Gwenda:** Ha ha! Wyt ti'n meddwl?

## Geirfa

**anhygoel** - *incredible*  
**yn syth** - *straight away*  
**cefnogi** - *(to) support*  
**yr un ardal** - *the same area*  
**ar yr un pryd** - *at the same time*  
**trefnu** - *(to) arrange*

## Sgript Sain 2 - Audio Script 2

**Mr Davies:** Beth yw trefniadau'r sioe Nadolig Mr Morgan?

**Mr Morgan:** Byddwn ni'n addurno'r neuadd brynhawn dydd Mercher.

**Mr Davies:** Bydd plant Blwyddyn 6 yn gallu helpu.

**Mr Morgan:** O diolch. **Bydd y sioe** yn dechrau am chwech o'r gloch ond **bydd y plant** yn cyrraedd am hanner awr wedi pump.

**Mr Davies:** Byddan nhw angen help i wisgo. Wnewch chi helpu Mrs Jenkins?

**Mrs Jenkins:** Bydda i'n casglu arian. **Bydd** Mrs Jones yn gallu helpu gwisgo'r plant.

**Mr Morgan:** Diolch. Wnewch chi ofyn i Mrs Jones helpu?

**Mrs Jenkins:** Gwnaf.

**Mr Morgan:** Mr Davies wnewch chi helpu gyda phlant Blwyddyn Un?

**Mr Davies:** Gwnaf, wrth gwrs! Dim problem.

**Mr Morgan:** **Bydd plant** Blwyddyn Un yn canu gyntaf wedyn bydd plant Blwyddyn Dau yn actio Drama'r Geni.

**Mr Davies:** Fyddwn ni'n canu carolau?

**Mr Morgan:** Byddwn ni i gyd yn canu carolau ar y diwedd.

**Mrs Jenkins:** Hefyd, bydd staff y gegin yn gwneud mins peis i bawb.

**Mr Davies:** Diolch i chi. **Bydd** hi'n sioe ardderchog, dw i'n siŵr.

## Geirfa

trefniadau - *arrangements*  
sioe Nadolig - *Christmas show*  
addurno - *(to) decorate*  
dechrau - *(to) start*  
cyrraedd - *(to) arrive*  
gwisgo - *(to) dress*  
Drama'r Geni - *Nativity Play*  
i gyd - *all*  
diwedd - *end*

## Atebion - Answers

### Tasg sain / Audio task

Pwy fydd yn gwneud *pavlova* i'r bore coffi? Bydd Enid yn gwneud *pavlova*.  
Beth fydd Gwenda yn wneud? Bydd Gwenda yn gwneud cacen siocled  
I ba wlad bydd y ddau gwpwl yn mynd ar wyliau? Byddan nhw'n mynd i Ffrainc  
Pryd bydd Enid a Geraint yn mynd ar wyliau? Byddan nhw'n mynd ar ddechrau mis Awst, yn syth ar ôl yr Eisteddfod.  
Pwy fydd yn mynd i'r farchnad? Bydd Enid a Gwenda yn mynd i'r farchnad.  
Pwy fydd yn coginio swper (efallai)? Bydd y dynion yn coginio swper (efallai).

### Tasg fideo / Video task

Byddwn ni'n addurno'r neuadd brynhawn **Dydd Mercher**.  
Bydd plant Blwyddyn **6** yn gallu helpu.  
Bydd y sioe yn dechrau am **6** o'r gloch.  
Bydd Mrs Jenkins yn casglu **arian**.  
Bydd Mrs Jones yn helpu gwisgo'r **plant**.  
Bydd Mr Davies yn helpu gyda **phlant Blwyddyn Un**.  
Bydd **pawb** yn canu carolau.  
Bydd staff y gegin yn gwneud **mins peis**.